# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 20FED MEDI 2017 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau) a N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

R. Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol), M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro), J. Reynolds (Rheolwr Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorwyr C. Gordon (Eitem 7 - Cynigion i Gychwyn Ymarfer Ymgynghori i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith), Mrs B. Jones, S. Morgan a Mrs L. Phipps (Eitem 5 - Pwyllgorau Rheoli Canolfannau Cymunedol – Cynrychiolaeth CBSC). Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

### 3. CABINET - 6ED MEDI, 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Medi 2017 (rhifau cofnod. 1-7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. POLISI DIWEDDAREDIG GWRTH-DWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD A PHOLISI DIWEDDAREDIG GWRTH-WYNGALCHU ARIAN

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Arbennig ar 25ain Gorffennaf 2017, yn ceisio am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer (?) y Polisi diweddaredig Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a'r Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian.

Nododd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi ymdrechu i gynnal lefel uchel o onestrwydd a chywirdeb wrth gynnal ei fusnes, a chyda llywodraethu corfforaethol yn parhau i fod yn yrrwr busnes allweddol, mae'r angen i gynnal, adolygu a diweddaru blaenoriaethau allweddol yn rhan bwysig o hyd o'r offer llywodraethu.

Mae'r Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a'r Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian yn elfennau allweddol o fewn cyfres o bolisïau sy'n canolbwyntio ar atal twyll a drygioni ac yn nodi'r safonau y mae'r sefydliad yn gweithredu ar eu cyfer.

Nodwyd bod y polisïau presennol wedi cael eu hadolygu ddiwethaf yn 2011 ac maent bellach wedi'u diweddaru i roi cyfrif am newidiadau gweithredol ac i adlewyrchu arfer gorau a chydymffurfiaeth barhaus â gofynion deddfwriaethol presennol. Er ei bod yn annhebygol y bydd y Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian yn arbennig o berthnasol i'r gweithgareddau o ddydd i ddydd, mae'n eistedd ochr yn ochr â'r Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd a bydd yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn rhoi arweiniad i Aelodau a Swyddogion os mae sefyllfa bosibl yn codi gyda symiau mawr o arian parod.

Mae'r ddau bolisi yn gweithredu fel datganiadau o agwedd y Cyngor tuag at dwyll a llygredd ac yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol: -

- Byddant yn gymwys i Aelodau a Swyddogion;
- Byddant yn gymwys i drydydd partïon sy'n delio â'r awdurdod;
- Byddant yn sail i ddiwylliant yr awdurdod;
- Pennir rôl a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion wrth gyfrannu at ddiwylliant o onestrwydd a natur agored; a
- Mae hyfforddi ac ymwybyddiaeth yn ffactorau sy'n cyfrannu'n allweddol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnodd am ragor o wybodaeth am ba mor aml y mae'r Polisïau'n cael eu hadolygu. Esboniodd y swyddogion na fu newid sylfaenol i'r polisi dros nifer o flynyddoedd, felly, roedd angen diweddariad mewn meysydd o gwmpas strwythur staff ac ati, er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn gyfoes.

Ystyriwyd y Polisïau yn fanwl, a awgrymwyd rhai mân newidiadau. Yn ogystal, gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am wyliadwriaeth a gweithrediadau cudd a'r Polisïau perthnasol. Nododd yr aelodau fod canllawiau penodol ynghylch gwyliadwriaeth o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, sydd â chyfeiriad penodol at weithrediadau o dan y Ddeddf Trwyddedu a Safonau Masnach, o ran meysydd eraill, mae proses sefydlog er mwyn cymeradwyo unrhyw weithgareddau gwyliadwriaeth, sy'n cael eu cynnwys mewn polisïau unigol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi diweddaredig Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a

Llygredd a'r Polisi diweddaredig Gwrth-Wyngalchu Arian yn unol â'r rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion ac yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau.

## 5. PWYLLGORAU RHEOLI CANOLFANNAU CYMUNEDOL

Datganodd y Cynghorwyr Mrs B. Jones, S. Morgan a Mrs L. Phipps ddiddordeb yn yr eitem hon (gan eu bod yn Gynrychiolwyr Aelodau enwebedig ar Bwyllgorau Rheoli Canolfannau Cymunedol y Cyngor).

Gofynnwyd yn yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet am enwebiadau ar gyfer cynrychiolaeth Aelodau ar Bwyllgorau Rheoli Canolfannau Cymunedol y Cyngor.

Nodwyd, o dan ddarpariaethau cyfansoddiad y pwyllgorau rheoli canolfannau cymunedol, y gall y Cyngor Bwrdeistref Sirol (a Chyngor Cymuned neu Dref lle y bo'n briodol) enwebu cynrychiolydd o'r ward lle mae'r ganolfan wedi'i lleoli, i wasanaethu ar bwyllgorau o'r fath. Mae'n ofynnol cwblhau enwebiadau o'r fath yn dilyn etholiadau lleol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac fe ystyriodd y rhestr o Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol a enwebwyd fel aelodau pwyllgor ex-officio o'r canolfannau a gwnaeth awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion ac yn amodol ar fân newidiadau i'r enwau a ddarparwyd, gymeradwyo'r enwebiadau fel y manylir arnynt.

## 6. DYMCHWEL YSGOLION CYFUN OAKDALE A PHONTLLAN-FRAITH

Gofynnwyd yn yr adroddiad am gymeradwyaeth i ddymchwel ysgolion cyfun gwag Oakdale a Phontllan-fraith a sicrhau cymeradwyaeth am yr arian i dalu am y costau hyn.

Nodwyd, ers cwblhau Ysgol Uwchradd Islwyn newydd, nid oes angen gweithredol am (?? – ddim yn siwr) adeiladau Ysgolion Cyfun Oakdale a Phontllan-fraith, a gafodd eu gwagio ar ddiwedd mis Mehefin 2017. Nid ydynt yn hawdd eu defnyddio ar gyfer diben arall ac maent yn parhau i dynnu costau, gan gynnwys Cyfraddau Annomestig Cenedlaethol.

Mae pryderon diogelwch parhaus gan fod pobl wedi torri i mewn i'r eiddo gwag ar sawl achlysur. Mae'r adeiladau ar glo gyda larymau ac wedi'u hyswirio a chynhelir archwiliad yn wythnosol. Yn ychwanegol, penodwyd deilydd allwedd, a byddai'n cael ei alw allan pe bai larwm yn seinio. Mae hyn i gyd yn tynnu costau.

Argymhellodd yr adroddiad fod yr adeiladau'n cael eu dymchwel ac i gwblhau arolygon i hwyluso gwaredu'r safleoedd. Fodd bynnag, er mwyn darparu ar gyfer y gwasanaethau sy'n cyflenwi Canolfan Hamdden Pontllan-fraith, byddai angen gwaith dargyfeirio gwasanaethau drwy'r safle, am gost amcangyfrifedig o £97,000.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Ar ôl ystyried y costau sy'n gysylltiedig â dargyfeiriadau ar gyfer mynediad i Ganolfan Hamdden Pontllan-fraith, ac wrth ystyried ymarfer ymgynghori ar gyfer cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith, roedd yr Aelodau o blaid argymell bod y gwaith dymchwel yn cael ei gaffael cyn gynted ag y bo modd ar gyfer y ddau safle, fodd bynnag, dylai unrhyw waith dymchwel i Ysgol Gyfun Pontllan-fraith gael ei ohirio tan i'r cyfnod ymgynghori ar gyfer cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith ddod i ben.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddogion, ac fel yr amlinellwyd yn y cyfarfod ac wrth ddefnyddio cyllid o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod ar gyfer contractau: -

(i) o ran Ysgol Gyfun Oakdale, i symud ymlaen cyn gynted â phosib gyda dymchwel yr adeiladau, caffael y safle angenrheidiol ac ymchwiliadau eraill;

(ii) o ran Ysgol Gyfun Pontllan-fraith, i gaffael ar gyfer (?) dymchwel yr adeiladau, ar gyfer yr ymchwiliadau angenrheidiol o'r safle ac ymchwiliadau eraill ond peidio â mynd ymlaen hyd nes y daw'r ymgynghoriad ar y bwriad i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith i ben.

## 7. CYNIGION I GYCHWYN YMARFER YMGYNGHORI I GAU CANOLFAN HAMDDEN PONTLLAN-FRAITH

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon ddiddordeb yn yr eitem hon (gan ei fod yn defnyddio'r cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Pontllan-fraith), penderfynwyd bod y diddordeb yn bersonol ac felly nid oedd yn ofynnol iddo adael y cyfarfod tra trafodwyd yr eitem.

Gofynnwyd yn yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn ymarfer ymgynghori ar y bwriad i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith ar y cyd ag agor Ysgol Uwchradd Islwyn a chefnogi gwerthu a datblygu campws Ysgol Uwchradd/Canolfan Hamdden Pontllan-fraith.

Disodlodd Ysgol Uwchradd Islwyn, a agorodd ym mis Mehefin 2017, Ysgolion Uwchradd Pontllanfraith ac Oakdale. Cefnogir y cyfleuster newydd gan gyfleusterau Chwaraeon a Hamdden sy'n cynnwys neuadd chwaraeon pedwar cwrt, 4 cwrt tenis, cae 3G defnydd deuol pêl-droed a rygbi a stiwdio ddawns amlbwrpas.

Mae Canolfan Hamdden Pontllan-fraith gyfredol, sy'n cynnwys neuadd chwaraeon pum cwrt, dau gwrt sgwash, ystafell ffitrwydd fach, stiwdio ddawns amlbwrpas, cae pêl-droed 3G, yn cefnogi cyflwyno addysg gorfforol y cwricwlwm, rhaglen gymunedol fywiog ac hefyd mae'n brif ganolfan ar gyfer Anturiaethau Caerffili, Gwasanaeth Addysg Awyr Agored Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Nododd y Cabinet, ar ôl cau Ysgol Uwchradd Pontllan-fraith, fod rhaglen ddymchwel wedi'i datblygu i baratoi'r safle i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Er mwyn parhau i gyflwyno'r defnydd cymunedol a Rhaglen Anturiaethau Caerffili, byddai angen adnoddau sylweddol mewn meysydd megis T.G., ffonau ac iechyd a diogelwch er mwyn cynnal y gwasanaeth mewn modd diogel a phriodol.

Yn ogystal, nododd y Cabinet nad yw'r Strategaeth Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden sy'n dod i'r amlwg, sydd heb ei mabwysiadu'n llawn, yn cydnabod Pontllan-fraith fel Canolfan Hamdden strategol bosibl ac felly mae agor Ysgol Uwchradd Islwyn yn gyfle i drawsnewid grwpiau defnyddwyr presennol heb unrhyw golled o wasanaeth.

Mae trosglwyddo Anturiaethau Caerffili i Goedwig Cwmcarn yn ddarostyngedig i achos busnes ar wahân. Amcangyfrifir bod cost y trosglwyddo oddeutu £75,000- £85,000.

Er mwyn parhau i gwrdd â galw'r gymuned a darparu cyfleuster a gymeradwyir gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ac o ganlyniad yn cefnogi darparu setiau cystadleuol ar ben uchaf pyramidau cystadlu, mae'n ddyhead y bydd y cae pêl-droed 3G yng Nghanolfan

Hamdden Pontllan-fraith yn cael ei adleoli i Ysgol Gyfun Coed Duon, er nad oes unrhyw arian wedi'i neilltuo at y diben hwn. Os na fydd arian ar gael, bydd swyddogion yn ceisio cynnig rhywfaint o'r cyfleuster hwn neu'r cyfan ohono yng Nghanolfan Rhagoriaeth Chwaraeon y Cyngor yn Ystrad Mynach.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Holodd Aelod pam nad oedd y cae 3G yn Ysgol Uwchradd Islwyn yn addas, ac os yr ystyriwyd hyn tra bod y cyfleuster yn cael ei adeiladu. Eglurodd y swyddogion fod safonau sefydlog yn ofynnol ar gyfer caeau 3G ar lefel gystadleuol uwch, mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr ysgol yn addas ar gyfer gweithgareddau cwricwlaidd aml-ddefnydd, ond nid ydynt yn cwrdd â gofynion Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, ac fel yr amlinellir yn y cyfarfod: -

(i) yn unol â'r achos busnes a nodir yn yr adroddiad, dylid ymgynghori ar y bwriad i gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith;

(ii) dylid cyflwyno adroddiad pellach ar ganlyniad yr ymgynghoriad ddiwedd yr Hydref 2017.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.50 p.m.

Cymeradwywyd a Llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Hydref, 2017.

________________________

CADEIRYDD